BookTrust
Getting children reading



# Darllen ar y cyd, newid bywydau plant

# Ynghylch BookTrust

BookTrust yw'r elusen ddarllen fwyaf i blant yn y DU, gyda hanes sy'n ymestyn yn ôl dros 100 mlynedd. Bob blwyddyn, rydym yn helpu miliynau o blant i ddarllen, yn enwedig y rhai o deuluoedd incwm isel neu gefndiroedd bregus.

Rydym yn gweithio yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac mae gennym gytundebau partneriaeth tymor hir â phob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr. Mae ein chwaer elusen, Scottish Book Trust, yn cefnogi teuluoedd yn yr Alban.

Mae gennym rwydwaith o dros

**6,000 o bartneriaid cymunedol**

sy'n rhoi mynediad i ni i bob teulu mewn pocedi o amddifadedd, yn ogystal â'r rhai yn yr ardaloedd trefol a gwledig mwyaf difreintiedig.

**Rydym yn gweithio gyda 90%**

o lyfrgelloedd, pob ysgol gynradd y wladwriaeth a chwarter o'r holl ysgolion uwchradd.

Yn 2022–23, cyrhaeddom

**1.5 miliwn o blant**

Mae ein gwaith craidd yn cefnogi plant a theuluoedd o gefndiroedd incwm isel a bregus, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Rydym hefyd yn darparu llyfrau ac adnoddau ar gyfer pob babi newydd-anedig trwy ein rhaglen Dechrau Da; rydym yn gweithio gyda phlant ysgol hyd at 13 oed ac yn tynnu sylw at y goreuon oll o ran llenyddiaeth i blant.

Mae ein galluoedd ymchwil a gwerthuso yn canolbwyntio ar ddeall y buddion sy'n gallu newid cwrs bywyd y mae darllen yn eu rhoi ac agweddau ac ymddygiad teuluoedd. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at ein dull o ddylunio ac arloesi, sy'n dangos sut i greu arferion darllen cyson mewn teuluoedd.

Mae gennym arbenigedd mewn comisiynu llyfrau ac adnoddau a rheoli'r gadwyn gyflenwi, gan ddosbarthu miliynau o lyfrau ac adnoddau yn effeithlon bob blwyddyn.

Mae BookTrust yn rhoi cefnogaeth i Fardd Plant Cymru Waterstones, sydd yn ei 25ain flwyddyn.

Rydym yn un o Sefydliadau Portffolio Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr. Mae ein pencadlys yn Leeds ac mae gennym swyddfeydd yn Llundain, Caerdydd a Belfast, yn ogystal â staff ar draws y wlad.

# Darllen ar y cyd, newid bywydau plant

**Mae'r papur hwn yn crynhoi holl wybodaeth a dealltwriaeth BookTrust ynghylch sut y gall darllen, a darllen ar cyd yn benodol, drawsffurfio canlyniadau i blant. Mae'n dangos yr hyn sydd angen ei wneud, yn ein barn ni, i gefnogi teuluoedd i ddod yn deuluoedd sy'n darllen yn rheolaidd, a sut y gellir cynyddu rhai o'r ymyriadau mwyaf cost-effeithiol ar sail y rhwydweithiau a'r seilwaith sydd eisoes yn bodoli. Rydym yn rhannu'r rhain fel ein cyfraniad at y drafodaeth genedlaethol ynghylch sut y gellir gosod y sylfeini gorau ar gyfer cychwyn plentyn mewn bywyd. *E-bostiwch ni yn chief.executive@booktrust.org.uk gyda'ch syniadau ynghylch y cynigion.***

## Beth yw darllen ar y cyd?

Darllen ar y cyd yw pan fydd oedolyn neu frawd neu chwaer hŷn yn edrych ar lyfr gyda babi neu blentyn, neu'n ei ddarllen. Mae'n ymwneud â mwynhau llyfr neu stori gyda'ch gilydd, ac nid yw'n dibynnu ar sgiliau darllen gweithredol y plentyn. Mae'n fwyaf cyffredin gyda phlant o dan 7 neu 8 oed – ond gall barhau yn hwyrach o lawer yn ystod plentyndod.

Rydym yn byw mewn oes heriol i blant. Mae llawer mwy o deuluoedd bellach yn byw mewn tlodi oherwydd yr argyfwng costau byw[1]. Mae plant a gollodd gyfleoedd datblygu hanfodol yn ystod y pandemig wedi mynd ar ei hôl hi o ran datblygiad iaith, llythrennedd a sgiliau cyfathrebu[2]. Effeithiwyd ar eu lles cymdeithasol ac emosiynol[3].

Mae risg sylweddol y bydd eu cyrhaeddiad yn yr ysgol a chyfleoedd bywyd hirdymor yn dioddef [4].

Mae gwaith BookTrust wedi'i gynllunio i fynd i'r afael â rhai o effeithiau negyddol tlodi a'r pandemig er mwyn helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i'r plant sydd ei angen fwyaf. O ddegawdau o weithio gyda degau o filiynau o blant a miloedd o bartneriaid lleol, gwyddom y gall darllen chwarae rôl hanfodol o ran helpu i gyflawni canlyniadau da i blant. Mae'n cael effaith y mae tystiolaeth eang ohoni ar ddeilliannau tymor byr a hirdymor, gan gyfrannu'n sylweddol at well iechyd meddwl, canlyniadau addysgol, empathi a chreadigrwydd, a lliniaru anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol. Ac mae'n cyfoethogi bywyd y teulu[i].

Mae teuluoedd yn gwybod bod darllen yn bwysig, ond mae rhai'n ei chael yn anodd ei wneud yn rhan o fywyd y teulu gyda phlant ifanc.

**Mae 95% o deuluoedd**

yn gwybod ei bod yn bwysig darllen gyda'u plentyn, ond dim ond

**42% o blant**

sy'n cael stori amser gwely.

Arolwg Teuluoedd BookTrust 2022

Mae cefnogi darllen yn rhad, mae'n adeiladu ar ddisgwyliadau cymdeithasol ac addysgol sydd eisoes yn bodoli ac ar yr hyn mae teuluoedd yn gwybod sy'n bwysig. Mae hefyd yn adeiladu ar sgiliau a rhwydweithiau presennol y gweithwyr proffesiynol a'r sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd. Mae hyn yn dir ffrwythlon ar gyfer ysgogi newid.

Mae'r papur hwn yn nodi'r hyn sydd angen digwydd, ym marn BookTrust, a pham, ar sail ein hymchwil a'n profiad. Ond gwyddom hefyd y bydd gan gannoedd o arbenigwyr a gweithwyr proffesiynol eu mewnwelediadau i'w rhannu, ac rydym yn awyddus i glywed y rhain. Mae'r gwaith o gyflwyno ein rhaglenni, yn ogystal â rhaglenni darllen sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau eraill, mewn cymunedau ledled y wlad, yn dibynnu ar arbenigedd a gaiff ei ledaenu'n eang. Rydym am i'n huchelgeisiau at y dyfodol gael eu llywio gan yr arbenigedd hwn, ac rydym yn cynnal deialog â phartneriaid i gael eu sylwadau.

Hoffem glywed eich barn ar ein cynigion ar gyfer gwella canlyniadau i blant difreintiedig trwy rym darllen ar y cyd, a sut mae'r rhain yn cydweddu â gwaith eich sefydliad chi. I rannu'ch syniadau, cysylltwch â ni yn **chief.executive@booktrust.org.uk**



# Ein cynigion

Er ein bod yn gwybod bod pob plentyn yn cael budd o ddarllen, rydym wedi ymrwymo i gynnig cymorth sydd wedi'i dargedu'n fwy penodol i deuluoedd o gefndiroedd incwm isel a bregus oherwydd ein bod yn gwybod y bydd y plant hyn yn cael y budd mwyaf o ddarllen yn rheolaidd a darllen o'u gwirfodd.

**Rydym yn galw am ehangu'r ddarpariaeth mewn pedwar maes allweddol.**

**Cynnig 1: Gwreiddio darllen ym mywyd pob teulu incwm isel.** Darparu llyfrau, adnoddau a phrofiadau darllen o ansawdd uchel i deuluoedd incwm isel â phlant yn y blynyddoedd cynnar.

**Cynnig 2: Defnyddio darllen ar y cyd i ddod â mwynhad a sefydlogrwydd i blant bregus.** Rhaglen darllen ar y cyd ddwys i blant o gefndiroedd teuluol bregus a chymorth i'w rhieni a'u gofalwyr.

**Cynnig 3: Helpu ymarferwyr cyn-geni a'r blynyddoedd cynnar i hyrwyddo darllen ar y cyd fel teulu** Rhaglen o lyfrau, adnoddau, ysbrydoliaeth, arweiniad a hyfforddiant ar sail tystiolaeth i wneud darllen ar y cyd yn rhan o fywyd teuluol o'r oedran cynharaf.

**Cynnig 4: Cefnogi athrawon ysgolion cynradd i feithrin cariad at ddarllen.** Cymorth i ddod o hyd i lyfrau o ansawdd uchel i'w rhannu ac adnoddau i gefnogi ymgysylltiad cartref-ysgol â darllen ar y cyd.

**Mae 53% o rieni a gofalwyr**
plant oed ysgol gynradd yn dweud nad yw darllen yn rhan fawr o fywyd y teulu.

Arolwg BookTrust o Deuluoedd, 2021

Credwn, ar sail ein profiad a'n hymchwil, pe bai camau'n cael eu cymryd yn y meysydd hyn, y byddem yn gweld gwelliant sylweddol mewn canlyniadau i blant ar fesurau tymor byr a thymor hir. Mae'r adrannau isod yn esbonio pam mae pob ymyriad yn bwysig, a'r hyn rydym yn gwybod a fydd yn gwneud gwahaniaeth.

# Pam mae darllen yn bwysig

Mae plant sy'n darllen yn rheolaidd, ac sy'n dewis darllen, yn gwneud yn llawer gwell ar ystod eang o ganlyniadau na'r rhai nad ydynt yn darllen. Rydym wedi adolygu cannoedd o astudiaethau ansoddol a meintiol i ganfod bod plant sy'n darllen yn cael buddion yn y meysydd canlynol.

**Mae plant sy'n darllen yn fwy tebygol o oresgyn anfantais a achosir gan anghydraddoldebau**

- Byddant yn profi gwell symudedd addysgol a symudedd cymdeithasol
- Mae'r rhai sy'n cael eu magu mewn tlodi yn llai tebygol o aros mewn tlodi fel oedolion
- Maent yn fwy tebygol o oresgyn y rhwystrau y mae anfantais yn eu cyflwyno ar draws yr ysgol

Mae plant difreintiedig sy'n cyflawni'n uchel ar ddiwedd yr ysgol gynradd ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi cael rhywun yn darllen iddynt gartref yn eu blynyddoedd cynnar, o gymharu â'u cyfoedion[5]. Yn gyffredinol, cyrhaeddodd llai na hanner y plant difreintiedig y lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig ar ddiwedd yr ysgol gynradd, o gymharu â bron i 70% o'u cyfoedion mwy cefnog[6].

**Mae plant sy'n darllen yn fwy tebygol o fod yn hapusach, yn iachach a phrofi gwell lles meddyliol a hunan-barch**

- Maent yn teimlo'n fwy diogel ac yn datblygu clymau dwfn gyda rhieni a gofalwyr
- Maent yn cysgu'n well ac yn dilyn ffyrdd iachach o fyw
- Mae ganddynt sylfaen well ar gyfer datblygiad cymdeithasol-emosiynol iach
- Mae ganddynt well lles meddyliol a hunan-barch

Mae plant 3-5 oed y darllenir iddynt amser gwely yn cysgu'n hirach[7]. Mae cysgu'n chwarae rhan hanfodol yn natblygiad plant, gan effeithio ar eu twf, eu sgiliau echddygol, eu sylw, sut maent yn rheoleiddio eu hymddygiad, eu cof, eu hwyliau a pha mor wydn ydynt[8].

**Mae plant sy'n darllen yn fwy tebygol o wneud yn well yn yr ysgol a gwneud mwy o gynnydd ar draws y cwricwlwm**

- Mae ganddynt well ddatblygiad ymennydd, sylw a gallu gwybyddol
- Mae ganddynt well sgiliau datblygiad iaith a llythrennedd
- Mae ganddynt well gwybodaeth am y byd ac maent yn fwy parod i ddysgu
- Maent yn gwneud cynnydd ar draws y cwricwlwm

Mae darllen ar y cyd yn darparu cyfleoedd heb eu hail ar gyfer rhyngweithio llafar rhwng plentyn a'i riant neu ofalwr, gan gyfrannu at ddatblygiad iaith cynnar. Ni ellir gwneud hyn yn yr un modd trwy weithgareddau eraill megis chwarae gyda theganau, amseroedd bwyd neu gelf a chrefft[9].

**Mae plant sy'n darllen yn fwy tebygol o ddatblygu empathi a chreadigrwydd**

- Mae ganddynt fwy o empathi
- Maent yn fwy creadigol a dychmygus

Trwy ffurfio ac ailffurfio eu disgwyliadau'n gyson o'r hyn a allai ddigwydd mewn stori, mae darllenwyr ifanc yn ymarfer hyblygrwydd meddyliol, bod yn agored i sefyllfaoedd a dehongliadau newydd, a datrys problemau[10].

Dim ond ychydig o fuddion darllen yw'r rhain sydd wedi'u canfod gan ymchwil. Mae'r holl gorff o dystiolaeth yn sylweddol ac amrywiol. Mae BookTrust wedi datblygu crynodeb rhyngweithiol ar fuddion darllen sy'n crynhoi ac yn trefnu'r ymchwil hon i unrhyw un sy'n dymuno archwilio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer effaith darllen ar ddatblygiad plentyn.

# Beth sy'n arbennig am ddarllen ar y cyd?



Er bod darllen yn gyffredinol yn effeithio ar ganlyniadau, mae tri chynhwysyn pwysig sy'n benodol i ddarllen ar y cyd yn sefyll allan o'n hymchwil. Pan fydd oedolion yn rhannu llyfrau lluniau gyda babanod a phlant, mae manteision uniongyrchol a hirdymor:

- **Agosrwydd corfforol a sylw a rennir:** Mae rhannu amser darllen heb frys yn ofod perffaith ar gyfer bondio ac ymlyniad. Mae'n dangos i'r plentyn fod yr oedolyn ar gael yn emosiynol. Mae rhannu pwynt o ddiddordeb gydag oedolyn yn dysgu canolbwyntio, datgodio a gwneud synnwyr[11].
- **Mwynhad:** Mae plant yn cymryd rhan mewn darllen yn y tymor byr a'r tymor hir pan fydd oedolyn yn amrywio tôn ei lais, yn cyfleu hyfrydwch, syndod a drama, ac yn ymateb i ddiddordeb y plentyn yn y stori. Pan fydd plentyn yn gweld oedolyn yn cymryd rhan ac yn mwynhau stori, maen nhw'n ei mwynhau hefyd[12].
- **Rhyngweithio:** Mae darllen rhyngweithiol yn helpu i ffurfio perthnasoedd ac yn cefnogi datblygiad iaith a gwybyddol plant, gan roi buddion mor gynnar â dwy wythnos oed[13]. Mae oedolyn yn darllen yn y modd hwn yn cynnwys y plentyn gymaint â phosibl, gan adael i blentyn fachu a chyffwrdd â llyfr; talu sylw i atebion ac ymatebion y plentyn; a chysylltu cynnwys y llyfr â'r plentyn[14]. Mae plant ac oedolion yn dweud mwy o eiriau wrth chwarae gyda llyfr na gyda thegan[15].

# Crynodeb o'n cynigion

## Cynnig 1: Gwreiddio darllen ym mywyd pob teulu incwm isel.

Darparu llyfrau, adnoddau a phrofiadau darllen o ansawdd uchel i deuluoedd incwm isel â phlant yn y blynyddoedd cynnar.

**Pam mae hyn yn bwysig:** Yn ystod plentyndod, mae gan ddarllen ar y cyd fuddion uniongyrchol. Mae'n cefnogi bondio rhwng plant a'u rhieni[16], mae'n ysgogi datblygiad yr ymennydd[17], ac yn gwella cysgu[7]. Gall wella iechyd meddyliol rhieni[18]. Mae hefyd yn helpu plant i gyrraedd nodau datblygu cynnar ac mae'n arwain at ganlyniadau tymor hwy: mae tystiolaeth yn dangos bod plant o gefndiroedd difreintiedig sy'n cyflawni'n uchel ar ddiwedd yr ysgol gynradd ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi cael rhywun yn darllen iddynt gartref yn eu blynyddoedd cynnar[19].

**Yr her:** Mae teuluoedd yn gwybod bod darllen yn bwysig, ond mae rhai yn ei chael yn anodd ei wneud yn rhan o fywyd teuluol gyda phlant ifanc. Mae 95% o deuluoedd yn gwybod ei bod hi'n bwysig darllen gyda'u plentyn, ond dim ond 42% o blant sy'n cael stori amser gwely. Mae llawer o deuluoedd yn cael trafferth canfod amser i ddarllen gyda'u plentyn. Nid yw chwarter o rieni yn ei chael yn hawdd darllen gyda'u plantII. Yn aml, nid oes gan deuluoedd incwm isel fynediad at ystod o lyfrau pleserus ar gyfer eu plentyn sy'n briodol o ran oedran.

**Datrysiad BookTrust:** Rydym wedi datblygu Dechrau Da i Fabanod, Plant Bach (1–2 oed) a Phlant Cyn Oed Ysgol (3–4 oed) i ddarparu llyfrau ac adnoddau mewn ffyrdd y gwyddom fydd yn ysgogi ac yn cefnogi teuluoedd incwm isel i ddarllen yn rheolaidd. Rydym yn cyrraedd hanner miliwn o deuluoedd gyda babanod newydd bob blwyddyn a thros 400,000 o deuluoedd incwm isel â phlant bach. Mae 98% o deuluoedd o'r farn bod ein hadnoddau yn gyffrous ac yn bleserus, a dywed 84% o deuluoedd incwm isel fod yr adnoddau hyn wedi eu hysgogi i ddarllen mwy gyda'u plentyn[V] – ond dim ond llai na 40% o deuluoedd incwm isel cymwys y mae ein cyllid yn caniatáu inni eu cyrraedd.

**Dylai ein rhaglenni profedig fod ar gael i bob plentyn a theulu incwm isel, mewn ardaloedd o dlodi uchel ac mewn pocedi o amddifadedd.**

> **"Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd aruthrol yn nifer y plant di-eiriau sy'n ymuno â'n meithrinfa, ac mae cynlluniau fel Dechrau Da wir yn helpu i annog rhieni i siarad â'u plant gartref ac i sylweddoli pa mor fawr yw darllen i blentyn ar ei ddatblygiad iaith."**
>
> Gwerthusiad o Dechrau Da Pecyn i Blant Bach a Dechrau Da Pecyn i Blant Cyn Oed Ysgol 2022–2023

**Beth sy'n gweithio?** Rydym wedi cynnal ymchwil helaeth, ac rydym wedi dylunio ein rhaglenni gyda theuluoedd ar incwm isel[I,II,III]. Er mwyn gwreiddio arferion darllen, gwyddom y canlynol:

- **Mae dechrau'n gynnar yn gwneud gwahaniaeth mawr.** Mae teuluoedd sy'n dechrau darllen ar y cyd ar y cyfle cyntaf yn llawer mwy tebygol o barhau i ddarllen drwy gydol eu plentyndod. **Dyna pam mae Dechrau Da i Fabanod yn rhan hanfodol o'n dull gweithredu a pham rydym yn treialu ymgysylltiad cyn geni.**
- **Mae'r dewis llyfrau'n hollbwysig.** Mae teuluoedd yn teimlo mwy o gymhelliad i ddarllen llyfrau sy'n teimlo'n berthnasol. Mae dyluniadau lliwgar a deniadol a llyfrau rhyngweithiol yn tanio archwilio, dychymyg a defnydd mynych. Mae themâu o fywyd bob dydd a chymeriadau y gellir uniaethu â nhw yn denu teuluoedd i mewn. **Dyma pam rydym yn buddsoddi yn ein harbenigedd dewis llyfrau ac yn gweithio'n agos gyda chyhoeddwyr ac awduron i ddod â'r llyfrau mwyaf deniadol i deuluoedd.**
- **Mae dangos i rieni sut i rannu straeon yn magu hyder.** Pan fydd rhieni'n gweld plant yn ymateb yn gadarnhaol i stori, maen nhw'n fwy tebygol o roi cynnig arni eu hunain. **Dyma pam rydym yn cefnogi llyfrgelloedd i gyflwyno Amser Stori BookTrust lle mae ymarferwyr yn dangos sut i ddarllen yn uchel, gan roi cymhelliant i rieni a gofalwyr wneud yr un peth gartref.**

> **"Pan oedd fy mhlentyn yn faban doeddwn i ddim wir wedi meddwl pa fath o lyfrau i'w cael gan fy mod yn meddwl ei fod yn rhy ifanc i fwynhau llyfrau, ond pan dderbyniais y pecyn Dechrau Da i Fabanod, gwelais ef yn ymateb iddynt er ei fod mor fach ...**
>
> **Roeddwn yn dioddef o iselder ôl-enedigol ac roedd defnyddio'r llyfr hwn yn weithgaredd bondio da gyda fy mabi ac mae wedi ein helpu i gysylltu llawer mwy."**
>
> Gwerthusiad o Dechrau Da i Fabanod, 2021





- **Mae cysylltu llyfrau â gweithgareddau a phrofiadau eraill yn ategu ymgysylltiad.** Mae gweithgareddau sy'n ymestyn themâu a syniadau llyfr yn rhoi mwy o gyfleoedd i ymgysylltu felly mae teuluoedd yn defnyddio llyfr dro ar ôl tro. **Dyma pam mae ein pecynnau llyfrau i deuluoedd yn cynnwys syniadau am weithgareddau a phropiau ar gyfer gemau yn seiliedig ar y themâu yn y llyfrau.**
- **Mae'n rhaid iddo fod yn hwyl.** an fydd plant a rhieni yn mwynhau darllen gyda'i gilydd, maen nhw eisiau darllen gyda'i gilydd yn amlach. **Dyma pam rydyn ni'n gweithio gyda'r teuluoedd eu hunain i ddylunio profiadau darllen sy'n chwareus ac yn hwyl.**

## Beth yw eich profiad o'r rhan y gall llyfrau a darllen ei chwarae wrth helpu plant o deuluoedd incwm isel i gyflawni eu potensial?

Rhannwch eich syniadau gyda ni trwy e-bostio **chief.executive@booktrust.org.uk**

## **Cynnig 2: Defnyddio darllen ar y cyd i ddod â mwynhad a sefydlogrwydd i blant agored i niwed.** Rhaglen ddarllen ddwys ar y cyd i blant o gefndiroedd teuluol bregus a chefnogaeth i'w rhieni a'u gofalwyr.

**Pam mae hyn yn bwysig:** Mae darllen ar y cyd yn gynnar yn bwysig i bob plentyn. Pan fydd babanod a phlant yn profi aflonyddwch neu anawsterau gartref, gall darllen ar y cyd fod yn arbennig o drawsnewidiol. Mae darllen ar y cyd yn cefnogi ymlyniad a gall helpu plant i deimlo'n ddiogel a bod pobl yn eu caru[20]. Mae'n darparu dihangfa sy'n gweithredu fel ffactor amddiffynnol rhag adfyd; ymdeimlad o sefydlogrwydd sy'n helpu plant i ymgartrefu mewn arferion ac amgylcheddau newydd; mecanwaith ar gyfer trafod materion anodd a chythryblus; a ffordd o ailgysylltu â phrofiadau ac emosiynau[21]. Mae canlyniadau addysgol plant sy'n derbyn gofal a phlant mewn angen ar gyfartaledd yn waeth na phlant eraill, gan gynnwys bod yn llai tebygol o fodloni disgwyliadau cysylltiedig ag oedran mewn darllen yn saith ac un ar ddeg oed[22].

**Yr her:** Mae plant o gefndiroedd teuluol bregus neu sy'n symud o un cartref i'r llall yn wynebu heriau penodol wrth sefydlu darllen ar y cyd rheolaidd.

Mae'n bosib bod ganddynt fynediad cyfyngedig i lyfrau deniadol a phriodol, bywydau cymhleth a phrysur, ac amgylchiadau sy'n gwneud arferion a defodau rheolaidd yn anodd.




> **"Mae'r llyfrau rydych chi'n eu dewis o ansawdd uchel iawn... Yr hyn rwy'n dwlu arno am BookTrust yw nad ydych wedi tybio bod gan bawb bensil yn y cartref ... Dyna BookTrust yn meddwl y tu allan i'r bocs ac yn deall y teuluoedd hyn mewn gwirionedd."**
>
> Gwerthusiad o Glwb Blwch Llythyrau BookTrust 2021–23

**Datrysiad BookTrust:** Mae BookTrust yn cefnogi miloedd o blant mewn gofal maeth hirdymor bob blwyddyn gyda llyfrau ac adnoddau sydd wedi'u dewis yn arbennig ac sy'n cael eu darparu trwy ein rhaglen Clwb Blwch Llythyrau. Oherwydd y gallai darllen wneud cymaint o wahaniaeth i lawer mwy o blant bregus, rydym yn datblygu cynnig newydd a fydd yn gwreiddio datrysiadau darllen ar y cyd ar gyfer lleoliadau teulu newydd ac fel rhan o ymyrraeth gynnar a chymorth cynnar, i gefnogi perthnasoedd a bywyd teuluol cadarnhaol.

**Dylai ein rhaglenni darllen ar y cyd dwys fod ar gael i filoedd mwy o blant o gefndiroedd teuluol bregus, gan ddarparu cymorth parhaus sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel y gallant ddarllen yn rheolaidd gyda'u teuluoedd.**

**Beth sy'n gweithio?** Mae gennym flynyddoedd o brofiad o gyflwyno'r Clwb Blwch Llythyrau trwy ein rhwydwaith o bartneriaethau gydag ysgolion rhithwir, gan weithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion i dreialu dulliau o gefnogi plant agored i niwed mewn gwahanol amgylchiadau, ac arbenigedd mewn dylunio rhaglenni gyda phlant a theuluoedd. Dyma'r hyn rydym yn ei wybod:

- **Mae gwreiddio darllen ar yr adeg gywir yn hanfodol.** Mae cyfleoedd i wreiddio arferion darllen ar y cyd ar adegau o newid a thrawsnewid. **Gellir ystwytho ein cymorth i fodloni anghenion ar adegau allweddol.**
- **Mae'n hanfodol dewis llyfrau mewn modd sensitif.** Mae angen llyfrau ar blant bregus â chynnwys sy'n briodol i'w hoedran ac yn ddeniadol, yn ogystal â llyfrau sy'n cefnogi trafodaeth sensitif am berthnasoedd a bywyd teuluol. **Dyma pam mae ein holl lyfrau yn cael eu dewis gan baneli sydd ag arbenigedd mewn datblygiad plant a'r system gofal cymdeithasol ar gyfer plant.**
- **Mae perchnogaeth yn bwysig i blant.** Mae cael llyfrau a bod yn berchen arnynt yn gwneud i blant deimlo'n arbennig ac yn eu cynorthwyo i ymgysylltu â darllen. **Dyma pam mae ein rhaglenni yn cynnwys rhoi llyfrau a gweithgareddau i blant eu cadw.**
- **Mae angen help gyda darllen ar y cyd ar rieni a gofalwyr hefyd.** Mae angen help ar rieni a gofalwyr i ddeall pam mae darllen ar y cyd mor drawsnewidiol i blant bregus ac i gynyddu eu hyder i rannu straeon a'u gwreiddio mewn bywyd teuluol. **Dyna pam rydym yn gweithio gyda theuluoedd ac yn cynllunio cymorth sy'n briodol i amgylchiadau ac anghenion unigol pob plentyn a theulu.**
- **Rhaid cael sawl adeg o ymyrraeth.** Mae angen ymgysylltu dro ar ôl tro er mwyn sefydlu trefn gyson o ddarllen a defnyddio straeon i gefnogi perthnasoedd cryf, **felly mae ein rhaglenni dwys yn cael eu hadeiladu o amgylch sawl pecyn o lyfrau ac adnoddau a ddarperir ar adegau gwahanol.**

> **"Mae'r Clwb Blwch Llythyrau wedi gwneud i'm hyder wrth ddarllen dyfu, ac mae hefyd wedi gwneud i mi ddefnyddio fy nychymyg. Pan roeddwn i'n i'n iau, roedd yn well gen i lyfrau lluniau, ond nawr mae'r Clwb Blwch Llythyrau'n amrywio faint a pha fath o lyfrau dwi'n eu darllen."**
>
> Gwerthusiad o Glwb Blwch Llythyrau BookTrust, 2021–23

## Beth yw eich profiad o'r rhan y gall llyfrau a darllen ei chwarae wrth helpu plant o gefndiroedd bregus i gyflawni eu potensial?

Rhannwch eich syniadau gyda ni trwy e-bostio **chief.executive@booktrust.org.uk**

## Cynnig 3: Helpu ymarferwyr cyn-geni a'r blynyddoedd cynnar i hyrwyddo darllen ar y cyd fel teulu.

Rhaglen o lyfrau, adnoddau, ysbrydoliaeth, arweiniad a hyfforddiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wneud darllen ar y cyd yn rhan o fywyd teuluol o'r oedran cynharaf.

**Pam mae hyn yn bwysig:** Mae teuluoedd yn rhyngweithio ag ystod eang o ymarferwyr yng nghamau cynnar bywyd eu plentyn gan gynnwys bydwragedd, ymwelwyr iechyd, staff meithrinfeydd, gwarchodwyr plant, a staff blynyddoedd cynnar mewn ysgolion.

Mae'r rhyngweithiadau hyn i gyd yn gyfle. Mae teuluoedd sy'n cael cymorth cynnar i ddarllen gyda'u babi – er enghraifft gan fydwragedd, ymwelwyr iechyd a gweithwyr proffesiynol eraill – yn fwy tebygol o ddarllen gyda'i gilydd o'r misoedd cyntafII. Darllen ar y cyd yw un o'r arfau mwyaf effeithiol i gefnogi sgiliau cyfathrebu plant a'u parodrwydd ar gyfer yr ysgol, a chaiff y buddion hyn eu gwella pan fydd ymarferwyr yn cefnogi teuluoedd i rannu llyfrau a straeon gartref. Pan fydd ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn annog rhieni i rannu straeon a dangos iddynt sut i wneud hynny, mae rhieni'n fwy cymhellol ac yn fwy hyderus.

**Yr her:** Mae rhai ymarferwyr wedi bod yn cefnogi'r gwaith o ddarparu Dechrau Da gydag arbenigedd enfawr ers degawdau, ond gallai mwy o bartneriaid chwarae rhan mewn hyrwyddo darllen i rieni, ac nid yw pob un yn deall y ffyrdd eang y mae'n cyfrannu at nodau datblygiad cynnar. Nid oes gan rai ymarferwyr gofal plant ac addysg gynnar fynediad at ddigon o lyfrau ac adnoddau adrodd straeon o ansawdd uchel, na'r sgiliau a'r hyder i ddod â'r rhain yn fyw.

**Datrysiad BookTrust:** Mae rhaglenni blynyddoedd cynnar BookTrust yn cynnwys cymorth i filoedd o ymwelwyr iechyd, llyfrgellwyr ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar. Roedd 83% o lyfrgellwyr yn hoffi neu wrth eu bodd yn gweithio gyda ni ar ein gwobr a'n rhaglen Amser Stori, a gynhaliwyd mewn mwy na 2,000 o lyfrgelloedd cyhoeddus[VI]. Yn 2022/23 fe wnaethom gefnogi dros 4,000 o ymarferwyr yn eu gwaith gyda theuluoedd gyda'n pecynnau cymorth llyfrau ac adnoddau 'Storyteller' – gyda mwy na 90% o ymarferwyr yn uchel eu parch iddynt. Rydym wedi treialu corneli llyfrau symudol go iawn, adnoddau digidol a chymorth ysbrydoledig gan awduron plant – ond mae miloedd yn fwy o ymarferwyr a allai elwa ar y cymorth hwn bob blwyddyn.

**Rydym am i'n cymorth, ein harweiniad, ein hoffer a'n hyfforddiant mewn darllen ar y cyd fod ar gael i bob ymarferydd blynyddoedd cynnar, gan helpu plant i gyrraedd eu nodau datblygiad cynnar, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae niferoedd uchel o blant o deuluoedd incwm isel.**

> **"Mae'r adnoddau hyn wir yn ein cefnogi ni annog teuluoedd i fynychu'r rhaglenni, a sicrhau eu bod yn parhau i ddarllen llyfrau a rhigymau adref."**
>
> Gwerthusiad o Ddechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da i Blant Cyn Oed Ysgol, 2022–23

**Beth sy'n gweithio?** Mae ymarferwyr wedi gweithio gyda ni i ddarparu Dechrau Da ers dros 30 mlynedd, gan gydweithio i ddylunio a mireinio ein harlwy. Trwy hyn a'n hymchwil gyda theuluoedd rydym wedi dysgu'r canlynol:

- **Mae dechrau'n gynnar yn newid ymddygiad teuluol.** Yn ystod beichiogrwydd ac yn syth ar ôl genedigaeth, mae teuluoedd yn barod i dderbyn negeseuon ar sut i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant. Pan fydd bydwragedd, ymwelwyr iechyd a phartneriaid cymunedol yn esbonio manteision darllen ar y cyd, mae hyn yn cymell teuluoedd i ymgorffori darllen mewn arferion a defodau, gan wella iechyd meddwl mamau a sefydlu perthnasoedd cadarnhaol. Mae tadau yn cael eu cymell i weld rhan y gallant ei chwarae ym misoedd cynnar bywyd eu babi. **Dyma pam rydym yn cefnogi ymwelwyr iechyd a chofrestryddion i gyflwyno darllen ar y cyd yn ystod wythnosau cyntaf bywyd babi ac rydym am ddatblygu cynllun peilot cyn geni newydd i brofi'r eiliadau a'r mecanweithiau gorau i fydwragedd gyflwyno darllen ar y cyd i deuluoedd.**
- **Mae cyngor clir a gaiff ei ailadrodd gan ymarferwyr yn cael effaith.** Mae ein hymchwil yn dangos, pan fydd ymarferwyr y gellir ymddiried ynddynt yn esbonio pa mor bwysig yw darllen ar y cyd yn gynnar, mae rhieni'n fwy tebygol o rannu straeon gyda'u plentyn.
- Pan gânt gyngor ar wahanol achlysuron a chan ddylanwadau lluosog yn eu bywydau, maent yn fwy tebygol o ddarllen yn rheolaidd a gwreiddio arferion darllen. **Dyna pam rydym yn cynllunio ein rhaglenni gydag ymarferwyr i gynnwys y negeseuon allweddol a'r esboniadau sydd eu hangen arnynt.**



- **Dangos darllen ar y cyd sy'n cael yr effaith gryfaf.** Pan fydd ymarferwyr yn dangos i rieni sut i ddefnyddio llyfr ac adrodd stori, maent yn troi negeseuon haniaethol am ddarllen yn gymorth diriaethol ac ysgogol i deuluoedd. Mae hyn yn cael effaith arbennig o gryf ar deuluoedd sydd â hyder darllen ac ymgysylltiad isel ac mae'n bwysig bod ymarferwyr yn hyderus yn rhannu straeon yn y modd hwn. **Dyma pam rydyn ni'n rhoi llyfrau gwych i ymarferwyr eu darllen yn uchel i grwpiau o blant ac adnoddau i gefnogi'r gwaith hwn, a pham rydyn ni eisiau datblygu hyfforddiant ymarferwyr i helpu i feithrin sgiliau adrodd straeon.**
- **Mae llyfrau ac adnoddau o safon yn bwysig.** Llyfrau sy'n addas ar gyfer plant a theuluoedd mewn gwahanol gyd-destunau, ac adnoddau y gellir eu defnyddio mewn ffyrdd hyblyg, sy'n diwallu anghenion ymarferwyr ac yn darparu gwell cymorth i deuluoedd. **Mae ein pecynnau cymorth, gan gynnwys bagiau cefn sy'n cynnwys adnoddau a straeon ar gyfer gwahanol oedrannau, wedi'u cynllunio mewn ymateb i adborth gan ymarferwyr i'w defnyddio mewn gwahanol leoliadau a chyd-destunau. Mae ein hadnoddau digidol yn ysgogi ac yn cefnogi grŵp amrywiol o ymarferwyr y blynyddoedd cynnar.**

**Yn eich profiad chi, sut beth yw hyfforddiant a datblygiad effeithiol ar gyfer ystod amrywiol o weithwyr a phobl proffesiynol? Sut gellir ei wreiddio orau yn y gweithgareddau sydd eisoes yn bodoli?**

Rhannwch eich syniadau gyda ni trwy e-bostio **chief.executive@booktrust.org.uk**

## **Cynnig 4: Cefnogi athrawon ysgolion cynradd i feithrin cariad at ddarllen.** Helpu i ddod o hyd i lyfrau o ansawdd uchel i'w rhannu ac adnoddau i gefnogi ymgysylltiad cartref-ysgol â darllen ar y cyd.

**Pam mae hyn yn bwysig:** Mae darllen ar y cyd yn parhau i fod yn gatalydd ar gyfer datblygiad plant ar ôl iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae cael profiad o amgylchedd llawn straeon yn rhoi hwb i sgiliau siarad a gwrando plant, eu gwybodaeth am y byd, a'u datblygiad cymdeithasol, yn ogystal ag effeithio'n sylweddol ar eu gallu i ddysgu darllen[23]. Mae plant sy'n darllen yn gwneud yn well yn yr ysgol ac yn gwneud mwy o gynnydd ar draws y cwricwlwm[24]. Mae darllen yn cael budd cadarnhaol hirdymor ar ddatblygiad yr ymennydd ac mae'n cefnogi cyrhaeddiad academaidd yn uniongyrchol: gall amgylchedd dysgu cyfoethog yn eu blynyddoedd cynnar gael effaith gadarnhaol ar blentyn bedwar degawd yn ddiweddarach[25]. Wrth i blant dyfu, mae angen dewis o lyfrau perthnasol o ansawdd uchel arnynt i ddatblygu eu hoffterau a'u hunaniaeth fel darllenydd, ac i barhau i gael eu hysgogi i ddarllen. Mae angen iddynt weld eu hunain a'u bywydau yn cael eu cynrychioli mewn llyfrau. Er mwyn cefnogi datblygiad darllenwyr, mae angen i athrawon ddeall y rhan y mae darllen ar y cyd yn ei chwarae. Mae angen mynediad ar athrawon at lyfrau cyfredol, ysbrydoledig a chynrychioliadol ac adnoddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ymgysylltu â phlant a theuluoedd.

**Yr her:** Mae darllen ar y cyd yn gwneud cyfraniad cryf at gyflawniad academaidd plant yn erbyn nodau datblygiad cynnar a thu hwnt – ond mae'n gostwng yn sydyn pan fydd plant yn dechrau'r ysgol. Dywed 53% o rieni a gofalwyr plant oed cynradd nad yw darllen yn rhan fawr o fywyd teuluol[III].

Mae llawer yn dweud bod ymarfer ffoneg yn cael blaenoriaeth dros ddarllen er mwynhad. Yn yr ysgol, mae darpariaeth ffoneg yn cael ei blaenoriaethu dros fathau eraill o weithgarwch darllen, ac yng nghyfnodau cynnar yr ysgol mae'n ffocws ymgysylltu â rhieni. Mae mwynhad plant o ddarllen yn gostwng yn ystod plentyndod ac mae'n gostwng yn gyffredinol, gyda Lloegr yn rhan waelod tablau rhyngwladol ar gyfer darllen er pleser[26]. Mae pwysau amser yn her fawr i athrawon, sydd angen cyfeirio hygyrch at lyfrau ac arweiniad sy'n canolbwyntio ar effaith i gefnogi eu gwaith. Oni bai bod plant yn dewis darllen, ni fydd datblygiadau mewn llythrennedd gweithredol yn sicrhau manteision ehangach o ran lles, creadigrwydd a symudedd cymdeithasol gwell.

**Datrysiad BookTrust:** Mae gan BookTrust sylfaen dystiolaeth gref ar gyfer sut i feithrin ymddygiad darllen cadarnhaol mewn plant. Rydym am weld darllen ar y cyd yn dod yn rhan ganolog o bob cwricwlwm ysgol a bywyd pob teulu.

**Dylai ein hymchwil, ein canllawiau a'n hargymhellion am lyfrau fod yn rhan o becyn cymorth pob athro fel bod plant yn darganfod amrywiaeth o lyfrau o ansawdd uchel sy'n berthnasol, yn ysbrydoledig ac yn gynrychioliadol.**



**Beth sy'n gweithio?** O'n hymchwil ddofn i hyrwyddo ymddygiad darllen ar y cyd ac arbenigedd eang yn y llyfrau gorau, gwyddom y canlynol:

- **Mae ymgysylltu â theuluoedd yn hollbwysig.** Gall athrawon ennyn diddordeb teuluoedd mewn darllen ar y cyd trwy ysbrydoli plant a thrwy annog darllen gartref. Mae 57% o deuluoedd incwm isel yn dweud bod athrawon yn dylanwadu ar eu plant i fwynhau darllen[ii]. **Dyma pam rydyn ni'n cefnogi athrawon trwy ganllawiau ac offer dylanwadu fel ffilmiau a phosteri. Rydym hefyd wedi cynnal treialon ymchwil i arferion pontio ysgol sy'n cynnal darllen ar y cyd yn y cartref, y gellid eu cynyddu i helpu pob plentyn i gael y dechrau gorau posibl yn yr ysgol a chefnogi eu datblygiad o sgiliau darllen cryf.**
- **Mae ysgolion yn darparu mynediad gwerthfawr at lyfrau.** Mae 23% o blant incwm isel 4-7 oed yn dewis llyfrau ar gyfer darllen ar y cyd yn yr ysgol[ii]. **Rydym yn darparu argymhellion llyfrau amrywiol sydd o ansawdd uchel ar gyfer llyfrgelloedd a chorneli llyfrau ysgolion.**
- **Mae cynrychiolaeth yn bwysig.** Mae gweld eu bywydau yn cael eu cynrychioli mewn llyfrau yn ennyn diddordeb plant mewn darllen. **Dyma pam rydyn ni'n cefnogi crewyr llyfrau amrywiol ac yn hyrwyddo llyfrau cynhwysol sy'n cynrychioli ystod eang o gymeriadau o gefndiroedd a safbwyntiau.**
- **Mae dewis y llyfr cywir yn bwysig.** Wrth i blant dyfu, mae dod o hyd i lyfrau sy'n ymateb i'w diddordebau a'u dewisiadau unigol yn dod yn bwysicach. Mae athrawon yn chwarae rhan hanfodol wrth helpu pob plentyn i ddarganfod y llyfr cywir ar eu cyfer. **Dyma pam rydym yn cyfeirio athrawon at lyfrau ar gyfer gwahanol oedrannau a chyfnodau sy'n ymdrin â gwahanol themâu, ac yn dosbarthu Arweinlyfr Llyfrau Gwych blynyddol o adolygiadau o lyfrau newydd.**

> **"Edrychais i o amgylch ar y dosbarth ar adeg egwyl ac roedd y myfyrwyr yn eistedd â'u hwynebau yn y llyfr, yn hollol dawel. Doedden nhwddim yn gallu stopio darllen. Dydw i erioed wedi eu gweld nhw'n gwneud hynny o'r blaen. Dydy'r llyfrau hyn ddim allan ar y bwrdd dim ond i'w dangos, maen nhw'n dwlu arnyn nhw."**
>
> Gwerthusiad o Glwb Blwch Llythyrau BookTrust 2021–23

## Beth, yn eich profiad chi, fyddai'n helpu athrawon cynradd ac ysgolion i gefnogi rhieni a gofalwyr i gymryd rhan mewn darllen ar y cyd gartref?

Rhannwch eich syniadau trwy e-bostio **chief.executive@booktrust.org.uk**

# Ein gwaith

Mae ein rhaglenni wedi'u cynllunio i greu cyfleoedd lluosog i blant gael profiadau darllen gwych, yn enwedig profiadau darllen ar y cyd yn y blynyddoedd cynnar. Mae rhagor o wybodaeth am ein rhaglenni ar gael ar ein gwefan.

## Cyrhaeddiad rhaglenni BookTrust

### Clwb Blwch Llythyrau

Mae ein rhaglen ddarllen ddwys yn cael ei hanfon at blant bregus mewn **87% o awdurdodau lleol.**




Rydym yn darparu **llyfrau dwyieithog mewn mwy na 30 o ieithoedd gwahanol.**

Mae **98% o'r awdurdodau lleol** yn Lloegr yn defnyddio ein llyfrau ac adnoddau AAAA.

Mae mwy na 25,000 o blant yng Nghymru yn cymryd rhan yn **Amser Rhigwm Mawr Cymru.**



### Amser Stori BookTrust

Rydym wedi creu partneriaeth â **2,400 o lyfrgelloedd** i gyflwyno sesiynau Amser Stori BookTrust. Storytime sessions.

### Adolygiadau o lyfrau ac argymhellion

Rydym yn cyhoeddi dros 370 o adolygiadau o lyfrau y flwyddyn ac yn anfon ein Canllaw Llyfrau Gwych i bob ysgol gynradd.

Mae **mwy na 260,000 o fyfyrwyr Bl7 a Bl8** yn dewis llyfr i'w gadw fel rhan o BookBuzz.




### Dechrau Da Babi

Rydym yn cyrraedd **mwy na 90%** o fabanod newydd-anedig yng Nghymru a Lloegr gyda llyfrau ac adnoddau.

### Pori Drwy Stori

Rydym yn cyrraedd **mwy na 50,000** o blant mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn yng Nghymru gydag adnoddau dwyieithog.

### Dechrau Da yn y Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru

Rydym yn cyrraedd **mwy na 30,000** o blant 2 i 3 oed gyda llyfrau ac adnoddau.




### Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da i Blant Cyn Oed Ysgol

Rydym yn cyrraedd **mwy na 400,000** o deuluoedd incwm isel sydd â phlant 1-4 oed gyda llyfrau, gweithgareddau ac ysbrydoliaeth.

### Digwyddiadau gydag awduron ac ymweliadau ag ysgolion

Rydym yn cyrraedd **o leiaf 50,000 o blant** trwy ein digwyddiadau ar-lein ac wyneb-yn-wyneb gyda chrewyr o liw.

Mae'r holl ffigurau'n berthnasol i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon oni nodir yn wahanol.

# Cyfeiriadau

Mae BookTrust yn gwneud ymchwil helaeth gyda theuluoedd a phlant. Mae'r ymchwil hon wedi llywio ein dealltwriaeth o rôl darllen ym mywydau teuluoedd, arferion darllen teuluoedd a phlant, a'r rhwystrau a'r cymhellion y maent yn eu hwynebu. Rydym yn gwrando'n rheolaidd ar adborth gan bartneriaid trwy arolygon a sgyrsiau manwl.

Mae ymchwil ddiweddar BookTrust y cyfeirir ati yn y ddogfen hon yn cynnwys:

| | Y math o weithgaredd dysgu | Y gynulleidfa a maint y sampl | Cwmpas Daearyddol |
|---|---|---|---|
| I. BookTrust; The Benefits of Reading (2023) | Adolygiad cryno o dystiolaeth ymchwil o sut mae darllen o fudd i blant | Cannoedd o astudiaethau ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid, gan gynnwys sawl adolygiad systematig a meta-ddadansoddiad | Y DU ac yn rhyngwladol |
| II. Arolwg BookTrust o Deuluoedd 2022 | Arolwg ar-lein gyda theuluoedd incwm isel | 2,148 o rieni/gofalwyr incwm isel plant 0–7 oed | Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon |
| III. Arolwg BookTrust o Deuluoedd 2021 | Arolwg ar-lein gyda theuluoedd ar draws yr holl grwpiau incwm | 7,871 o rieni/gofalwyr plant 0–17 oed a phlant 7–17 oed eu hunain.<br>500 o neiniau a theidiau incwm isel. | Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon |
| IV. Ymchwil Darganfod y Blynyddoedd Cynnar BookTrust (2022–23) | Ethnograffeg DeepReal ar-lein ac wyneb yn wyneb | 66 o rieni/gofalwyr incwm isel plant 0–5 oed | Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon |

| | Y math o weithgaredd dysgu | Y gynulleidfa a maint y sampl | Cwmpas Daearyddol |
|---|---|---|---|
| V. Gwerthusiad o Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da i Blant Cyn Oed Ysgol (2022–23) | Ymchwil dulliau cymysg o raglenni Dechrau Da (1–2 oed) i Blant Bach a Dechrau Da i Blant Cyn Oed Ysgol (3–4 oed): arolwg ar-lein, arolwg papur, gwaith maes ansoddol | Dros 600 o rieni/ gofalwyr plant 0–5 oed a bron 300 o bartneriaid cyflenwi | Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon |
| VI. Gwerthus-iad o Amser Stori BookTrust (2022–23) | Ymchwil dulliau cymysg o bartneriaid llyfrgell sy'n darparu Amser Stori BookTrust | Tua 200 o bartneriaid llyfrgell | Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon |
| VII. Gwerthusiad o Glwb Blwch Llythyrau BookTrust (2021–23) | Arolwg ar bapur o blant sy'n rhan o'r Clwb Blwch Llythyrau | 609 o blant 6–14 oed (ar draws dwy flwyddyn) | Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon |
| VIII. Gwerthusiad o 'BookTrust Represents' (2021–22) | Ymchwil dulliau cymysg o athrawon, myfyrwyr ac awduron sy'n ymwneud â 'BookTrust Represents' | Data o 1,689 o ysgolion, ymatebion arolwg gan 40 o ysgolion, nifer fach o gyfweliadau | Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon |
| IX. Gwerthusiad o Ddechrau Da i Fabanod (2021–23) | Arolwg ar-lein o rieni/gofalwyr a oedd yn cael Dechrau Da i Fabanod | Dros 500 o rieni/ gofalwyr plant 0–1 oed | Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon |

## Cyfeiriadau eraill:


1 Francis-Devine, B. (2023). Poverty in the UK: statistics. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin.

2 ICAN (2023) Speaking Up for the Covid Generation.

3 Theberath, M. et al. (2022). Effects of COVID-19 pandemic on mental health of children and adolescents: A systematic review of survey studies. SAGE Open Med.

4 Education Endowment Foundation (2022). Best evidence on impact of COVID-19 on pupil attainment.

5 Sammons, P. M., Toth, K., a Sylva, K. (2015). Subject to Background: What promotes better achievement by bright but disadvantaged students? The Sutton Trust.

6 Farquharson, C., McNally, S., Tahir, I. (2022). Lack of progress onclosing educational inequalities disadvantaging millions. The IFS Deaton Review.

7 Jones, C. H., a Ball, H. (2014). Exploring socioeconomic differences in bedtime behaviours and sleep duration in English preschool children. Infant and Child Development, 23(5), 518-531.

8 Mindell, J. A., a Williamson, A. A. (2018). Benefits of a bedtime routine in young children: Sleep, development, and beyond. Sleep Medicine Reviews, 40, 93-108.

9 Sosa, A. V. (2016). Association of the type of toy used during play with the quantity and quality of parent-infant communication. JAMA Pediatrics, 170(2), 132-137.

10 Sturm, B. (2013). Bibliocreativity: how books and stories develop creativity. Yn Jami Jones and Lori Flint (Eds.), The Creative Imperative: School Librarians and Teachers Cultivating Curiosity Together. (tt. 203-214) Santa Barbara, CA: ABCCLIO.

11 O'Farrelly, C., Doyle, O., Victory, G., a Palamaro-Munsell, E. (2018). Shared reading in infancy and later development: Evidence from an early intervention. Journal of Applied Developmental Psychology, 54, 69-83; Betawi, I. A. (2015). What effect does story time have on toddlers' social and emotional skills. Early Child Development and Care, 185(4), 594-600; Hale, L., Berger, L. M., LeBourgeois, M. K., a Brooks-Gunn, J. (2011). A longitudinal study of preschoolers' language-based bedtime routines, sleep duration, and well-being. Journal of Family Psychology, 25(3), 423.

12 Newland L. A., et al. (2011). Mothers' beliefs and involvement: Links with preschool literacy development. International Journal of Psychology: A Biopsychosocial Approach, 9, 67–90; Landry, S.H. (2011). The effects of a responsive parenting intervention on parent–child interactions during shared book reading. Dev Psychol. 2012 Gorff, 48(4), 969-86.

13 Franks, A.M., et al. (2022). Parental Reading to Infants Improves Language Score: A Rural Family Medicine Intervention. J Am Board Fam Med. 2022 Dec 23, 35(6), 1156-1162.

14 Mol, S. E., Bus, A. G., de Jong, M. T., a Smeets, D. J. H. (2008). Added Value of Dialogic Parent–Child Book Readings: A Meta-Analysis, Early Education and Development, 19:(1), 7-26.

15 Sosa, A. V. (2016). Association of the type of toy used during play with the quantity and quality of parent–infant communication. JAMA Pediatrics, 170(2), 132-137.

16 Chacko, A., Fabiano, G. A., Doctoroff, G. L., a Fortson, B. (2018). Engaging fathers in effective parenting for preschool children using shared book reading: A randomized controlled trial. Journal of Clinical Child & Adolescent Psychology, 47(1), 79-93.

17 Hutton, J. S., Phelan, K., Horowitz-Kraus, T., Dudley, J., Altaye, M., DeWitt, T., a Holland, S. K. (2017). Shared reading quality and brain activation during story listening in preschool-age children. The Journal of Pediatrics, 191, 204-211.

18 Canfield, C. F. et al. (2020). Beyond language: Impacts of shared reading on parenting stress and early parent–child relational health. Developmental Psychology, 56(7), 1305.

19 Sammons, P. M., Toth, K., a Sylva, K. (2015). Subject to Background: What promotes better achievement by bright but disadvantaged students? The Sutton Trust.

20 Bell, D. (2020). Can participation in a shared reading activity produce relational benefits between foster carers and children in their care? Traethawd Ymchwil Doethuriaeth Broffesiynol, Yr Ysgol Seicoleg, Prifysgol Dwyrain Llundain.

21 Mak, F. (2020). Longitudinal associations between reading for pleasure and child maladjustment. Social Science & Medicine, 253, 112971; Boyce, C. (2014).Tell a different story: some reflections on the 11th Kilbrandon Lecture and its relevance to residential child-care. Scottish Journal of Residential Child Care, 13(3).

22 Berridge, D. et al. (2020). Children in need and children in care: Educational attainment and progress. Canolfan Rees.

23 Mol, S. E., a Bus, A. G. (2011). To read or not to read: a meta-analysis of print exposure from infancy to early adulthood. Psychological Bulletin, 137(2), 267; Dowdall, N., et al. (2020). Shared picture book reading interventions for child language development: A systematic review and meta-analysis. Child Development, 91(2), e383-e399.

24 Brown, M. I., Wang, C., a McLeod, S. (2022). Reading with 1–2 year olds impacts academic achievement at 8–11 years. Early Childhood Research Quarterly, 58, 198-207.

25 Farah, M. J., et al. (2021). Randomized Manipulation of Early Cognitive Experience Impacts Adult Brain Structure. J Cogn Neurosci, 33(6), 1197–1209.

26 Lindorff, A., Stiff, J., Kayton, H. (2023). PIRLS 2021: National Report for England. Yr Adran Addysg.

BookTrust
Getting children reading



Dilynwch ni: @BookTrust

© 2023 BookTrust. Rhif elusen: 313343

BookTrust
No. 1 Aire Street
Leeds LS1 4PR